



Dyddiad cyhoeddi: 10 Mawrth 2020

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth. Ystyriwyd eich cais yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth. Gallaf gadarnhau ein bod yn cadw'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Allwch chi gadarnhau'r mathau o gerbydau fydd yn ymddangos ar rai Mk4 newydd ar wasanaeth Caergybi-Caerdydd, ee Dosbarth Safonol, Bwffe (gyda Safon 1/2), Dosbarth 1af, ac ati

Mae cerbydau Mk4 yn setiau 4-cerbyd, a byddant yn gweithredu i ddechrau ar sail y cyfluniad y gwnaethant gyrraedd o LNER, felly bydd dau gerbyd dosbarth Safonol llawn (gydag un yn cynnwys lle i gadair olwyn a thoiled hygyrch), un cerbyd bwffe sydd hefyd â 30 sedd dosbarth safonol ac un cerbyd Dosbarth Cyntaf llawn sydd hefyd yn cynnwys lle i gadair olwyn a thoiled hygyrch.

Cadarnhewch gapasiti'r batri a'r pellter teithio posibl dan bŵer batri ar gyfer y Tram/Trên, trenau Flirt 3 a 4 cerbyd.

Bydd batris y cerbydau newydd yn cynnwys y galluoedd canlynol: -

- Trenau-tram Dosbarth 398 – 128 kWh
- Dosbarth 756 (3 cerbyd) Flirt – 480 kWh
- Dosbarth 756 (4 cerbyd) Flirt – 600 kWh

O ran y pellter teithio posibl, mae hyn yn dibynnu'n fawr ar sut y caiff trenau eu defnyddio gan gynnwys cyflymder y lein, graddiant, nifer yr arosfannau a llwythi teithwyr. Does dim modd dyfynnu un ffigur. Diffiniwyd y capasiti batri uchod yn seiliedig ar y gwasanaethau / llwybrau y bydd y fflydoedd hyn yn rhedeg arnynt a faint o drydaneiddio sydd ar y gweill.

Allwch chi gadarnhau a oes rhagor o gerbydau neu addasiadau i'r cerbydau cyfredol wedi'u gwneud neu ar y gweill, ynghyd â manylion. Awgrymodd James Price yr wythnos hon fod hyn yn wir.

Mae naw dosbarth 153 ychwanegol wedi ymuno â'r fflyd ers dechrau eleni fel mesur dros dro tra bod trenau dosbarth 769 yn cael eu cyflwyno. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r archebion am gerbydau newydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru